Splott: Sanquhar Street – Cael Gwared â'r Nodwedd Culhau â Blaenoriaeth

Disgrifiad o Gynnig y Cynllun

Mae'r Cyngor yn rhoi gwybod i breswylwyr am ei fwriad i wneud newidiadau i'r briffordd ar Sanquhar Street.

Mae nodwedd culhau â blaenoriaeth ar Sanquhar Street wrth ymyl y gyffordd â Neilson Close; mae hyn yn lleihau llif traffig i'r ddau gyfeiriad i lawr i un rhes. Cynigir tynnu'r nodwedd hon a gosod croesfan sebra ddyrchafedig sy'n estyn allan i'r ffordd yn ei lle. Bydd lledu'r llwybr cerdded yn gwella'r groesfan i gerddwyr drwy eu galluogi i weld, a chael eu gweld, gan y cerbydau ar y ffordd. Gall rhwystrau culhau'r ffordd amharu ar lif traffig, cythruddo gyrwyr, ac achosi oedi i deithiau bws. Bydd cael gwared arnynt yn gwella dibynadwyedd amseroedd bysus drwy eu helpu i symud.

Bydd y mesurau arafu traffig hyn yn gwella cyfleusterau croesi i gerddwyr yn yr ardal ond hefyd yn helpu i leihau cyflymder cerbydau ar hyd Sanquhar Street a chreu priffordd ddiogelach i bawb sy'n ei defnyddio.

Cronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru sy'n ariannu'r cynllun hwn.

Byddem yn gwerthfawrogi unrhyw sylwadau a allai fod gennych ynghylch y cynigion. Rydym yn deall y gallai fod awgrymiadau eraill gennych i wella diogelwch ar hyd Sanquhar Street. O ganlyniad i gyfyngiadau ar arian efallai na allwn newid y cynlluniau hyn ryw lawer ar yr adeg hon, ond byddwn yn cadw cofnod o unrhyw awgrymiadau rydym yn eu derbyn i'w hymgorffori yng nghynlluniau'r dyfodol.

Os hoffech chi wneud unrhyw sylwadau ynghylch y cynnig hwn, anfonwch e-bost aton ni cyn 23/08/2019 at ProsiectauTrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk.

Rhagor o Wybodaeth am fesurau rheoli traffig

Nodweddion Arafu Traffig. Mae'r term hwn yn cyfeirio at fesurau rheoli traffig ffisegol penodol sy'n gorfodi gyrrwyr i leihau cyflymder cerbydau. Mae'r rhain yn cynnwys twmpathau ffordd, clustogau arafu, byrddau arafu, rhwystrau culhau'r ffordd, rhwystrau igam-ogamu, pyrth arafu, cylchfannau a nodweddion tebyg eraill.

Croesfan Sebra. Mae'r math hon o groesfan yn addas ar gyfer safleoedd sydd â lefelau canolig o alw gan gerddwyr a llif traffig lle nad oes cyfiawnhad dros ***groesfan pâl***. Gall wasanaethu cerddwyr yn well, gan nad oes amser aros penodedig cyn cael yr hawl i groesi. Gellir eu cyfuno'n hawdd â ***rhwystrau ymwthiol*** sy'n gwella gwelededd i gerbydau, yn lleihau'r pellteroedd croesi ac yn egluro bod cerddwyr yn bwriadu croesi'r ffordd.

Croesfan Sebra â Bwrdd. ***Croesfan sebra*** sy'n cynnwys bwrdd arafu, neu sydd ar ***gyffordd fwrdd,*** yn rhan o fesurau ehangach i arafu traffig neu ar ei ben ei hun.

Porth Cul Blaenoriaethol. Mesur arafu traffig gyda ***rhwystrau ymwthiol*** yn culhau'r ffordd fel mai ond un cerbyd ar y tro all deithio drwy'r porth. Ym mhob cynllun newydd i gulhau ffyrdd, rhoddir blaenoriaeth i geir sy'n teithio o un cyfeiriad. Gallant hefyd gynorthwyo cerddwyr i groesi'r ffordd oherwydd bod y ffordd yn gulach a bod gwell gweledd. Maen nhw'n fwyaf effeithiol pan fo nifer tebyg o gerbydau yn defnyddio'r ffordd i'r ddau gyfeiriad, gyda 10 i 20 o gerbydau y funud yn ystod yr awr frig.

Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynnig i weithredu cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.

A Proud Capital
Prifddinas Falch
CARDIFF
CAERDYDD

Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/transportprojects ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch 029 2087 3289 i ofyn am gopi papur. Os hoffech wneud unrhyw sylwadau am y cynnig rhowch wybod i ni erbyn **23/08/2019**



The Council is consulting on the proposal to implement a traffic management scheme based on the plan shown.

A Proud Capital
Prifddinas Falch
CARDIFF
CAERDYDD

Further details about this consultation are available at Cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail TransportProjects@cardiff.gov.uk or telephone 029 2087 3289 to request a paper copy. If you would like to make any comments about this proposal please let us know by **23/08/2019**